# Cofnodion Pwyllgor y Ty

**Dyddiad:** 16 Gorffennaf 2003

**Amser:** 8.30am

**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda C

**Yn bresennol:**

**Aelodau:**

Y Dirprwy Lywydd **(Cadeirydd)**
Lorraine Barrett, AC Llafur
Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol
Janet Davies, AC Plaid Cymru
William Graham, AC Ceidwadwyr
Janice Gregory, AC Llafur
Karen Sinclair, AC Llafur
Y Llywydd (hefyd yn bresennol)

**Swyddogion:**

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Clerc Pwyllgor y Ty
Gwen Parry, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfathrebu
Peter Jones, Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad
Wayne Cowley, Pennaeth y Swyddfa Ffïoedd
Nerys Evans, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty
Sara Lloyd, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty
Catherine Morris, YP y Dirprwy Lywydd

**Ymddiheuriadau:**

John Bowley, Cyfarwyddwr yr Is-adran Gwasanaethau Gorfforaethol

Ymddiheurodd y Dirprwy Lywydd fod amser dechrau'r cyfarfod wedi newid. Nododd ei fod wedi derbyn ymddiheuriadau oddi wrth John Bowley.

# 1. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a chamau gweithredu sy'n codi

Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 25 Mehefin eu cymeradwyo ar 8 Gorffennaf a byddent yn cael eu cyhoeddi ar 6 Awst.

## Y diweddaraf am yr amserlen weithredu HC(2)-03-03(p1)

### Adeilad Newydd y Cynulliad

Nodwyd mai yn ôl yr angen ac yn unol â'r gofynion gweithredol y byddai mynedfeydd â cherdyn caniatáu yn adeilad newydd y Cynulliad.

### Profi Ansawdd yr Aer

Yn sgil y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod diwethaf, cadarnhaodd Nerys Evans bod ansawdd yr aer yn cael ei brofi yn y Swyddfa Ffioedd. Byddai'n rhoi gwybod am y canlyniadau yn y cyfarfod nesaf.

**Gweithredu: Nerys Evans**

# 2. Camau gweithredu yn deillio o gyfarfodydd yr Is-grwpiau

Cytunwyd y byddai cofnodion yr is-grwpiau'n tynnu sylw at unrhyw faterion yr oedd angen i Bwyllgor y Ty benderfynu arnynt yn y dyfodol.

## 2.1 Cyfarfod Is-grwp y Celfyddydau 2 Gorffennaf 2003 HC(2)-03-03(p2)

Nid oedd argymhellion i Bwyllgor y Ty. Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod.

## 2.2 Cyfarfod yr Is-grwp Arlwyo 3 Gorffennaf 2003 HC(2)-03-03(p3)

Nid oedd argymhellion i Bwyllgor y Ty. Roedd yr Aelodau am annog rhagor o waith ymchwil i brynu nwyddau Masnach Deg ar gyfer y Cynulliad pryd bynnag y bo modd, yn amodol ar reoliadau'r UE.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod.

## 2.3 Cyfarfod yr Is-grwp TGCh 2 Gorffennaf 2003 HC(2)-03-03(p4)

### Diweddaru gwefannau personol yr Aelodau

Nododd Aelodau'r Pwyllgor bod angen prynu'r feddalwedd angenrheidiol i ddiweddaru gwefannau personol yr Aelodau. Gofynnodd yr Aelodau am gadarnhad na fyddai tâl yn cael ei godi ar yr Aelodau am feddalwedd sydd ar gael ar y rhwydwaith ar hyn o bryd. Byddai'r mater hwn yn cael ei gyfeirio at yr Is-grwp TGCh.

**Gweithredu: Gwen Parry**

### Ymchwilio i fwrdd cyrchfannau trenau a bysiau

Gofynnodd yr Aelodau i unrhyw gostau arwyddocaol yn ymwneud â chynnwys bwrdd cyrchfannau ym mhrosiect TGCh yr adeilad newydd gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Llywydd wrth yr Aelodau ei fod wedi cael adroddiad yn ddiweddar ar ddatblygiadau prosiect Merlin. Sicrhaodd yr Aelodau y gweithredwyd yn sgil eu sylwadau a'u cyfraniadau. Roedd y Cadeirydd am i'r Is-grwp TGCh gael gwybod am faterion TGCh yr oedd angen barn yr Aelodau arnynt.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a bwrw y byddai unrhyw faterion yr oedd angen penderfynu arnynt yn dod gerbron y Pwyllgor.

## 2.4 Cyfarfod y Grwp Cyswllt Offer a Chyfleusterau 14 Gorffennaf 2003

Byddai cofnodion cyfarfod y grwp yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau y tu allan i'r Pwyllgor. Dywedodd Nerys Evans nad oedd argymhellion yn deillio o'r cyfarfod.

# 3. Adroddiadau Clerc y Cynulliad

### 3.1 Papur ar berfformiad yn erbyn y targedau HC(2)-03-03(p5)

Nododd y Clerc bod y Pwyllgor Busnes yn trafod mwy o fusnes. Roedd mwy o bapurau Cymraeg ar gael ar gyfer y pwyllgorau. Cafodd yr Aelodau wybod bod Panel y Cadeiryddion yn ymchwilio i'r rhesymau dros gyflwyno papurau'n hwyr.

Nododd y Clerc bod perfformiad rhagorol y gwasanaeth cyfieithu'n parhau.

### 3.2 Strwythur a Chynnwys yr Adroddiad Blynyddol HC(2)-03-03(p6)

Cytunodd yr Aelodau ar strwythur a chynnwys arfaethedig yr adroddiad blynyddol. Awgrymwyd y dylid cynnwys gwybodaeth yn yr adroddiad ar y cynigion ar gyfer celf yn adeilad y Cynulliad.

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty**

## 4. Cyfleusterau'r Aelodau

### 4.1 Anerchiadau Siaradwyr Gwadd i Aelodau'r Cynulliad yn y Siambr

### HC(2)-03-03(p7)

Cymeradwyodd yr Aelodau'r argymhellion ar gyfer gweithdrefnau i siaradwyr gwadd annerch yr Aelodau yn y Siambr, a bwrw bod unrhyw gais i ddarlledu anerchiad yn cael ei gyflwyno i'r Llywydd.

### 4.2 Dyfodol Gwe-ddarlledu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru HC(2)-03-03(p8)

Cytunodd yr Aelodau i fwrw ymlaen â chyflwyno'r prosiect i we-ddarlledu trafodion y Cynulliad Cenedlaethol.

Gofynnodd yr Aelodau i'r Is-grwp TGCh barhau i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer caniatáu i swyddfeydd etholaeth weld gwe-ddarllediadau.

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty**

### 4.3 Cofrestru Grwpiau Trawsbleidiol HC(2)-03-03(p9)

Nododd y Pwyllgor ymateb y Pwyllgor Safonau i'r cynigion ar gyfer cofrestru grwpiau trawsbleidiol. Cytunodd yr Aelodau na ddylid gor-reoleiddio'r system gofrestru. Nodwyd y byddai'n fuddiol cael canllawiau ar gyfer gweithredu grwpiau trawsbleidiol, ond na ddylai'r canllawiau fod yn rhai caeth. Gellid eu seilio ar yr hyn a ddarparwyd beth amser yn ôl.

Byddai canllawiau'n cael eu drafftio i'w cyflwyno i gyfarfod nesaf Pwyllgor y Ty. Byddai rhestr yn cael ei llunio o bob grwp trawsbleidiol sy'n cynnwys Aelodau o dair plaid neu fwy.

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty**

## 5. Materion Staffio

### 5.1 Adnewyddu'r Contract ar gyfer Gwersi Cymraeg i Aelodau'r Cynulliad HC(2)-03-03(p10)

Cytunodd yr Aelodau i fwrw ymlaen ac ailddyfarnu'r contract am hyd at 24 mis, yn dibynnu ar ymchwilio ymhellach i opsiynau arbed costau.

**Gweithredu: Dianne Bevan**

## 6. Adeiladau

### 6.1 Mân Waith Newydd

Nododd yr Aelodau yr adroddiadau ar hynt prosiectau'r mân waith newydd a gymeradwywyd.

Trafododd yr Aelodau'r cynigion i uwchraddio'r system fonitro CCTV yn yr adeilad yn seiliedig ar weithdrefnau archwilio diogelwch a chyngor Uned yr Heddlu. Cymeradwyodd yr Aelodau'r cynigion i ymchwilio i wahanol systemau i bennu'r gofynion cyn llunio'r fanyleb derfynol i'w chyflwyno i'r Pwyllgor.

**Gweithredu: Nerys Evans**

### 6.2 Ystad y Cynulliad HC(2)-03-03(p12)

Cymeradwyodd Aelodau'r Cynulliad argymhellion y papur, a gofynnwyd am bapur arall i'r Pwyllgor yn yr hydref yn trafod yr ospiynau o ran parcio.

**Gweithredu: John Bowley**

## 7. Materion ariannol

### Cronfa Bensiynau Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Newid i'r Rheol ar Chwyddo'r Cynnydd yn y Gyfradd Gronni

Penderfynodd yr Aelodau ohirio unrhyw benderfyniad tan y cyfarfod nesaf er mwyn i'r Aelodau gael cyfle i fynychu seminar ar y mater a thrafod yr eitem ymhellach â'u grwpiau. Byddai Wayne Cowley yn ysgrifennu at weddill grwpiau'r pleidiau i drefnu amser cyfleus.

**Gweithredu: Wayne Cowley**

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Llywydd wneud cais am adolygiad gan y Bwrdd Adolygu Cyflogau Uwch maes o law.

## 8. Materion a gyfeiriwyd gan gynnwys Cwestiynau'r Cynulliad

Dywedodd y Cadeirydd bod OAQ27160 wedi'i dynnu'n ôl. Byddai OAQ27326, OAQ27327 a OAQ27341 yn cael eu cylchredeg i'r Aelodau ar ôl iddynt gael eu hateb yn y Siambr y prynhawn hwnnw.

## 9. Unrhyw fater arall

### Model Adeilad Newydd y Cynulliad

Dywedodd Gwen Parry y cafwyd cynnig i brynu model adeilad newydd y Cynulliad. Gofynnodd yr Aelodau a ellid ymchwilio i weld a fyddai modd benthyg y model am gyfnod estynedig neu'n barhaol.

**Gweithredu: Gwen Parry**

## Diweddaru'r Canllawiau i'r Cyhoedd ar Ymddygiad yn ystod Cyfarfodydd Pwyllgorau

Gofynnodd yr Aelodau i'r canllawiau gael eu diweddaru yn sgil digwyddiad yn ddiweddar a amharodd ar gyfarfod pwyllgor.

**Gweithredu: Gwen Parry/Nerys Evans**

## Swyddfa'r Llywydd Gogledd Cymru

Yn sgil cwestiwn gan un o'r Aelodau, cadarnhaodd Gwen Parry bod gwaith adeiladu swyddfa'r Gogledd wedi cychwyn, ac y byddai'r gwaith wedi'i gwblhau ymhen tua 6 mis, yn dibynnu ar ganlyniad y broses gaffael ar gyfer ffitiadau.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** i'w gyhoeddi

Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty /td>